# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Alan James, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus (GB) a Chymunedau (NS); Pennaeth Cyllid/Swyddog 151 (RW); Cyfreithiwr (AD); Rheolwr Tim Cynllunio Strategol (NK); Rheolwr Datblygiad Masnachol (DM) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitemau ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Meirick Davies –Eitem 5 - oherwydd ei fod yn Gadeirydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill – Eitem 5 – Cyfarwyddwr Data Cymru
Cynghorydd Tony Thomas – Eitem 8 – Cynghorydd Tref y Rhyl a Chynghorydd Sir.
Cynghorydd Brian Jones – Eitem 8 – Aelod o Grŵp Busnes/Cynghorydd Tref y Rhyl a Chynghorydd Sir.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet Arbennig a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2018 ar chyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2018.

**Materion yn codi -**

**Cabinet Arbennig (15 Hydref 2018) -** dywedodd y Cynghorydd Brian Jones fod diwedd y cyfarfod wedi'i gofnodi fel 6.10pm a'i fod yn teimlo y byddai'n ddoethach defnyddio'r cloc pedair awr ar hugain er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

**Cabinet (30 Hydref 2018) –** Tudalen 16, Eitem 4 yn y Cofnodion – Darpariaeth Safle Sipsiwn a Theithwyr – cyflwynodd y Cynghorydd Peter Scott safbwyntiau busnesau Parc Busnes Llanelwy a oedd wedi gwrthwynebu'r cynnig i leoli'r safle yn Green-gates Farm East, Llanelwy, gan gyfeirio at dystiolaeth o aflonyddu, difrod a materion diogelwch a brofwyd yn flaenorol yn y lleoliad hwnnw. Amlygodd hefyd effaith niweidiol y cynnig o ran y gallu i gadw busnesau ar y Parc Busnes ac i ddenu busnesau newydd yno yn y dyfodol. Erfyniodd y Cynghorydd Scott ar y Cabinet i ddefnyddio unrhyw ddylanwad sydd ganddynt dros yr ymgynghoriad cyn-cynllunio er mwyn sicrhau na fydd dyfodol Parc Busnes Llanelwy'n cael ei beryglu. Dywedodd yr Arweinydd y cafodd y Cabinet eu cynrychioli'n dda gan yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Tony Thomas, mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gyda'r sector busnes mewn perthynas â'r cynigion ac y byddai'r holl bryderon yn cael eu hystyried. Cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas ei fod wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Barc Busnes Llanelwy ac wedi gwrando ar ac ystyried eu safbwyntiau. Dywedodd fod y cam cyn-cynllunio ar y gweill ac y byddai'n dod i ben ar 25 Tachwedd 2018.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Medi 2018 ac 30 Hydref 2018 fel cofnod cywir.*

**5 ADRODDIAD AR BERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 2 – 2018-19**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau ar ddarpariaeth Cynllun Corfforaethol 2017-22 ar ddiwedd Chwarter 2 2018–19 .

Roedd yr adroddiad yn cynnwys tair prif elfen -

- Crynodeb Gweithredol – yn nodi cyraeddiadau ac eithriadau allweddol gyda dau ddarn o sylwebaeth ar gyfer pob blaenoriaeth:
- Adroddiad chwarterol llawn ar berfformiad a chynnydd y rhaglen – wedi'i gynhyrchu o System Rheoli Perfformiad Verto ac yn darparu asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa bresennol.
- Crynodeb o'r prosiectau sy'n cael eu rheoli o dan bob Bwrdd Rhaglen – Cymunedau a'r Amgylchedd a Phobl Ifanc a Thai.

Roedd perfformiad fel y byddai disgwyl iddo fod ar gam mor gynnar o ystyried yr amseroedd a bennwyd ar gyfer gwelliannau. Roedd dwy flaenoriaeth wedi'u hasesu fel rhai ar gyfer gwella, sef Cymunedau Gwydn a Phobl Ifanc, sy'n gofyn am fwy o fewnbwn gan bartneriaid allanol ac nad ydynt o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor. Mae'r tair blaenoriaeth arall - Tai, Cymunedau Wedi'u Cysylltu â'r Amgylchedd yn parhau i fod ar lefel dderbyniol. Roedd cynnydd ar draws y blaenoriaethau wedi'i asesu fel bod yn dda a rhoddwyd manylion y prosiectau a

reolir gan y ddau Fwrdd Rhaglen gan amlygu'r gwahanol gamau y maent wedi'u cyrraedd. Roedd un prosiect wedi'i wrthod a'i gau oherwydd nad oedd y Bwrdd yn ystyried y byddai'n cyflawni ei amcanion, sy'n dangos cadernid y broses asesu.

Arweiniodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol yr aelodau drwy'r meysydd blaenoriaeth yn yr adroddiad a thynnodd sylw at sawl maes o arfer da gan ymhelaethu ar ddatblygiadau'r prosiect mewn meysydd allweddol. Ychwanegodd y Cynghorydd Thompson-Hill y caiff adroddiadau rheolaidd eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu fel rhan o'r broses fonitro er mwyn iddynt ystyried a oes angen ymchwilio ymhellach i rai meysydd.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd yr Aelodau'r materion canlynol –

- o ran y prosiect i ddod a 500 o dai gwag yn ôl i ddefnydd, ystyriwyd bod 500 yn darged y byddai modd ei gyrraedd ond ei fod er hynny yn heriol o ystyried lefelau newidiol tai gwag - nodwyd fod cynnydd yn unol â'r targed.
- soniodd yr Arweinydd am bwysigrwydd Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol ac roedd yn falch fod y Cyngor wedi dal gafael ar ei uchelgais ac wedi cynnal momentwm a'r ymrwymiad i drigolion i lwyddo er gwaethaf yr hinsawdd ariannol – ar ôl gosod y blaenoriaethau roedd cynnydd da'n cael ei wneud o ran eu cyflawni.
- nodwyd ymgysylltiad aelodau'r Cabinet â'r Byrddau Rhaglen a sefydlwyd i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a darpariaeth prosiectau, ynghyd â'r crynodeb allweddol o brosiectau ar gyfer gwneud gwelliannau a oedd wedi'u cynnwys fel atodiad i'r adroddiad - bu peth trafodaeth ar rinweddau cryfhau cysylltiadau gyda'r rhai nad ydynt yn aelodau o'r cabinet yn ychwanegol at y monitro rheolaidd gan y Pwyllgor Craffu a'r Adroddiad Gwelliant Blynyddol i'r Cabinet. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai'n trafod gyda'r Aelod Arweiniol a fyddai lledaenu neu ddosbarthu gwybodaeth ymhellach yn ychwanegu gwerth at y broses bresennol.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Mark Young bwysigrwydd sicrhau parhad yn y gwaith cynnal a chadw ar y systemau amddiffyn rhag llifogydd presennol, a rhoddwyd sicrwydd bod yr elfen hon yn cael ei hystyried fel busnes arferol, a bod rhaglen o waith cynnal a chadw wedi'i sefydlu - nod y Cynllun Corfforaethol yw gwella'r ddarpariaeth bresennol yn hytrach na delio â materion cynnal a chadw bob dydd. Mewn perthynas â chynlluniau ac astudiaethau amddiffyn rhag llifogydd, nodwyd bod y gwaith yn parhau gyda phartneriaid. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones mewn perthynas â'r adroddiad annibynnol i'r llifogydd yn Ffordd Derwen, Y Rhyl, cadarnhaodd y Cynghorydd Brian Jones bod llythyr ar fin cael ei anfon allan i'r trigolion.
- mewn ymateb i gwestiynau a godwyd ynglŷn â'r tan ar Fynydd Llandysilio, dywedodd yr Arweinydd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Chwefror 2019 yn ystyried yr effeithiau a'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn y digwyddiad ac y byddai rhagor o fanylion ar gael bryd hynny.
- Rhoddodd y Cynghorydd Richard Mainon fwy o wybodaeth am y rhesymau y tu ôl i wrthod a chau'r prosiect Pwyntiau Mynediad Digidol; gan na fyddai'r prosiect yn cyflawni'r nod o wneud gwahaniaeth sylweddol gan gyfiawnhau'r gost, ystyriwyd y byddai'n ddoethach cyfeirio'r adnoddau ariannol tuag at ddod o hyd i

ateb go iawn ar sail fwy parhaol. Cytunodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol i ddosbarthu'r adroddiad cau i'r aelodau er gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 2 2018/19.*

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a gwybodaeth am gynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidol gytunedig. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2018/19 oedd £194.418m (£189.252m yn 2017/18).
- rhagamcanwyd gorwariant o £1.292m ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol
- rhoddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd cytunedig gwerth £4.6m gan gynnwys y rhai hynny a oedd eisoes wedi eu cyflawni gyda'r dybiaeth y byddai pob effeithlonrwydd/ arbediad yn cael eu cyflawni – byddai unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i'r Cabinet lle bo angen.
- amlygwyd risgiau ac amrywiadau cyfredol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd y wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Soniodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill am y meysydd risg arferol ond cadarnhaodd na fu fawr o newid yn y ffigyrau ers yr adroddiad i'r cyfarfod diwethaf. Ychwanegodd y Prif Weithredwr nad oedd yr heriau cysylltiedig â Chludiant Ysgolion a Gwasanaethau Plant yn unigryw i Sir Ddinbych ac mai'r rheswm y tu ôl iddynt oedd cynnydd mewn galw. Cafwyd sicrwydd fod swyddogion wedi craffu'n fanwl ar y pwysau hwn y byddai angen delio ag o ochr yn ochr â'r setliad ariannol gwael ar gyfer 2019/20.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth –

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts at y pwysau ar gludiant ysgol, sef bron £600k, ond yn y cyd-destun hwn dywedodd fod Cyngor Sir Powys yn gwario oddeutu £68k y diwrnod (£12.5m y flwyddyn) ar gostau cludiant.
- Rhoddodd sicrwydd ynghylch darbodaeth wrth weithredu'r meini prawf cymhwysedd am gludiant ysgol ac eglurodd elfennau disgresiwn y polisi. Nid oedd yn hyrwyddo adolygiad o'r elfennau anstatudol gan ei fod yn credu y byddai hynny'n arwain at effaith arwyddocaol ar ddysgwyr. Mae'r Cyngor wedi gwneud yr ymdrechion gorau dros y blynyddoedd diwethaf i ailstrwythuro gwasanaethau gan ganolbwyntio ar wytnwch er mwyn lleihau cyllidebau heb effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ond mynegwyd pryderon na fydd efallai'n bosibl fforddio'r amddiffyniad hwnnw yn y dyfodol Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn â'r posibilrwydd o gael arian ychwanegol, yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol, dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod £30m ychwanegol wedi'i gynnwys yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer

gofal cymdeithasol ar linell y gyllideb iechyd; roedd awdurdodau lleol yn lobio am beth o'r cyllid hwnnw. O safbwynt clustnodi elfen ganlyniadol Cyllideb Hydref y DU nid oedd yn hysbys eto a fyddai'n arwain at unrhyw arian ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol. Disgwylir y cyhoeddiad am y setliad terfynol ar 19 Rhagfyr. Soniodd yr Aelodau eto am yr anawsterau gyda chynllunio ariannol y dyfodol yng ngoleuni'r ansicrwydd ynghylch cyllidebau a chyhoeddiad hwyr y setliad terfynol. Dywedwyd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dal i lobio Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Mark Young at gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru bod £15m wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon, a chadarnhaodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ei fod wedi codi'r mater gyda'r Ysgrifennydd Addysg, Kirsty Williams. Nododd mai ei farn ef, o ystyried bod colli swyddi addysgu'n bosibilrwydd gwirioneddol, oedd y dylai awdurdodau lleol gael caniatâd i ddosbarthu cyllid addysg ar sail angen, fyddai'n fwy buddiol i ysgolion na chlustnodi gwariant yn benodol. Roedd yr Ysgrifennydd Addysg wedi ymateb drwy ddweud fod undebau'r athrawon yn fodlon â'r dyraniad ar gyfer hyfforddiant.
- mewn ymateb i gwestiynau am gontract cynnal a chadw Pont y Ddraig cafwyd eglurhad am faterion perthnasol i'r gwasanaeth a chostau trwsio ac eglurwyd y byddai angen ail drafod y contract cynnal a chadw er mwyn rhagweld costau'r dyfodol a chostau trwsio gydol oes. Roedd y costau ychwanegol eisoes wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrifon cyfredol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol gytunedig.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 8 DYFARNU GRANT ER MWYN CAFFAEL EIDDO AR RODFA'R GORLLEWIN A SUSSEX STREET YN Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorwyr Hugh Evans a Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i dderbyn cynnig o arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer caffael eiddo ar Rodfa'r Gorllewin a Sussex Street yn y Rhyl.

Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo prynu'r adeiladau yn Ebrill 2018 yn amodol ar gyllid allanol ar gyfer y costau caffael a dim costau refeniw cysylltiedig i'r Cyngor. Roedd Llywodraeth Cymru yn awr wedi cadarnhau cyllid grant cychwynnol o £2.5m

er mwyn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen gyda'r pryniannau ac ymrwymiad mewn egwyddor i roi £2.5m ychwanegol i gynorthwyo ag ailddatblygiad y safleoedd. Dywedodd yr Arweinydd fod ailddatblygiad arfaethedig y safle yn brosiect allweddol yn adfywiad y Rhyl ac y byddai'n dod ag eiddo adfeiliedig yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol, gan ddarparu cyfleoedd am swyddi a thwf busnesau, ac ysgogi rhagor o fuddsoddiad sector preifat yn y dref. Soniodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill am y gwahaniaethau rhwng hyn a'r cynnig gwreiddiol a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Ebrill 2018 a'r rhesymu y tu ôl i'r bwriad i gaffael yr holl eiddo fel un eitem yn hytrach nag fel dwy eitem fel y nodwyd yn flaenorol. Rhoddodd wybodaeth hefyd am fanylion yr arian grant a gynigiwyd a'r goblygiadau ariannol, ynghyd â'r risgiau sy'n deillio o'r cynnig.

Nododd y Cabinet fod y cynnig wedi cael cefnogaeth Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl a'r Grŵp Rheoli Asedau, ac roedd y Grŵp Buddsoddiad Strategol hefyd wedi argymell symud ymlaen â'r cynnig. Cydnabuwyd hefyd rinweddau'r cynnig o safbwynt adfywio. Mewn trafodaeth fanwl atebodd yr Aelodau Arweiniol a'r swyddogion gwestiynau pellach am y risgiau a ddynodwyd, yr effaith ar adnoddau ariannol, argaeledd arian grant a'r cytundebau/camau cyfreithiol angenrheidiol i symud ymlaen. Wedi ystyried manteision y cynnig ac wedi cydnabod y risgiau er mwyn symud ymlaen -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet* **–**

*(a)* *Yn cymeradwyo derbyn y cynnig o arian grant gan Lywodraeth Cymru er mwyn caffael eiddo yn Rhodfa'r Gorllewin a Sussex Streed y Rhyl sy'n cynnwys yr hen Westy'r Savoy a Theatr, Marchnad a Gwesty'r Frenhines ar yr amod fod y caffael arfaethedig gan gynnwys unrhyw gostau refeniw cychwynnol cysylltiedig yn cael eu hariannu'n allanol, a*

*(b)* *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.22.